

Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo

Mae'r coedwigoedd trofannol sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd-ddwyrain Congo yn gartref i niferoedd enfawr o anifeiliaid a phlanhigion sy'n cynnwys y gorila Grauer, poto Bosman a Phaun y Congo. Mae'r coedwigoedd enfawr hyn yn gartref hefyd i tua 40 miliwn o bobl. 260,000 hectar yw ardal y prosiect. Mae gan Weriniaeth Ddemocrataidd Congo lawer o fwynau gwerthfawr, gan gynnwys pethau sy'n mynd mewn i ffonau symudol, fel tantalwm.

Y problemau sy'n wynebu'r gymuned

Mae tlodi enfawr yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo. Y disgwyliad oes ar gyfartaledd ydy 41.1 mlynedd. Nid yw 27% o ddynion a 60% o fenywod wedi bod i'r ysgol.

Mae rhyfel a llawer o drais wedi bod mewn llawer o ardaloedd, wrth i grwpiau arfog geisio rheoli ardaloedd sydd ag adnoddau gwerthfawr fel copr a mwyn tantalwm. Mae hyn i gyd yn ei gwneud yn anodd iawn i bobl warchod y coed a'r bywyd gwylt o'u hamgylch.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn brysur yn ceisio goroesi. I dyfu bwyd, mae coed yn cael eu torri lawr a'u llosgi i glirio ardaloedd o dir, ac mae cnydau'n cael eu plannu. Dros amser, mae'r maetholion yn y pridd yn lleihau, ac mae mwy o ardaloedd o dir yn cael eu clirio er mwyn parhau i dyfu cnydau i fwydo teuluoedd.

Problem arall yw bod pobl o'r tu allan yn dod i gloddio am fetelau neu i dorri coed i



werthu'r pren.

Beth mae'r prosiect yn ei wneud?

Mae'n sefydlu dwy warchodfa sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned. Yn yr ardaloedd hyn, mae'r goedwig yn cael ei gwarchod drwy -

- gefnogi pobl i wneud bywoliaeth heb ddinistrio'r goedwig
- hyfforddi pobl leol i fod yn rhan o dimau sy'n cadw golwg ar beth sy'n digwydd i'r goedwig
- benodi timau o bobl leol i batrolio'r goedwig



Mae cyfarfodydd cymunedol rheolaidd yn cael eu cynnal i drafod eu hanghenion a'u syniadau am sut y gallant wneud bywoliaeth heb ddinistrio'r goedwig.

Mae pobl yn newid i amaethgoedwigaeth, sy'n golygu eu bod yn tyfu cymysgedd o goed ac amrywiaeth o gnydau. Maen nhw'n defnyddio gwrteithiau organig ac yn cylchdroi cnydau hefyd (newid y crop sy'n tyfu ar wahanol ddarnau o dir), sy'n cynhyrchu mwy o fwyd ac sy'n eu stopio nhw rhag bod angen clirio mwy o dir.

Mae pobl yn gwneud crefftau o gynhyrchion y goedwig y gallant eu gwerthu.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i wneud yn siŵr bod pawb yn deall y cyfreithiau am beth y gallant eu hela a'u pysgota a hefyd, i drafod newid yn yr hinsawdd a pam bod y goedwig mor bwysig.

Maen nhw wedi dechrau cynllun microgredyd, lle gall pobl fenthyg swm bach o arian a chael hyfforddiant ar y ffyrdd gwahanol o wneud bywoliaeth o'r tir.



Cafodd 39 o fenywod ac 1 dyn y benthyciadau cyntaf.

Mae cyfarfodydd cymunedol rheolaidd yn cael eu cynnal i drafod eu hanghenion a'u syniadau am sut y gallant wneud bywoliaeth heb ddinistrio'r goedwig.

Mae pobl yn newid i amaethgoedwigaeth, sy'n golygu eu bod yn tyfu cymysgedd o goed ac amrywiaeth o gnydau byrrach. Maen nhw'n defnyddio gwrteithiau organig ac yn cylchdroi cnydau hefyd (newid y crop sy'n tyfu ar wahanol ddarnau o dir), sy'n cynhyrchu mwy o fwyd ac sy'n eu stopio nhw rhag bod angen clirio mwy o dir.



Mae pobl yn gwneud crefftau o gynhyrchion y goedwig y gallant eu gwerthu.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i wneud yn siŵr bod pawb yn deall y cyfreithiau am beth y gallant eu hela a'u pysgota a hefyd, i drafod newid yn yr hinsawdd a pam bod y goedwig mor bwysig.

Maen nhw wedi dechrau cynllun microgredyd, lle gall pobl fenthyg swm bach o arian a chael hyfforddiant ar y ffyrdd gwahanol o wneud bywoliaeth o'r tir. Cafodd 39 o fenywod ac 1 dyn y benthyciadau cyntaf.

Storïau pobl

Meddai menyw leol, Maman Beatrice Batobake, am ei stôf newydd:

“o'r blaen, cyn i mi gael stôf sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, roeddwn i'n defnyddio llawer o goed tân, roedd fy sosbenni wedi mynd yn ddu oherwydd y mwg, roedd ein llygaid yn ddolurus ac roeddem yn cael annwyd oherwydd y mwg.

Ond nawr, gyda fy stôf newydd, rwy'n sylweddoli fy mod i'n defnyddio llai o bren, a dydy fy sosbenni ddim yn mynd yn ddu rhagor, oherwydd bod bron yr holl fwg yn dod allan o'r simnai. ”



Partner - Fauna and Flora International (FFI)